

## Swyddog Sicrhau Ansawdd (dwyieithog)

Cyflog: £24,510 - £27,147 y flwyddyn (Gradd 4)

Math o Gontract: Llawn-amser, Tymor penodol 31 Gorffennaf 2025

### Y Rôl:

Diben y swydd hon yw sicrhau ansawdd yr holl gynnwys digidol rhyngweithiol a gynhrychir o ran ffurf, ymarferoldeb ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau bod yr holl adnoddau o ansawdd uchel ac yn gywir cyn eu cyhoeddi. Mae'r swydd hon wedi ei phenodi ar gyfer cefnogi ein project Gwneud-i-Gymru.

### Yr unigolyn:

I ffynnu yn y rôl hon, byddwch chi'n drefnus ac yn gallu talu sylw i'r manylion wrth weithio ar sawl tasg ar unwaith. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn hyderus yn gweithio ar ei liwt ei hun, ond hefyd yr un mor hyderus yn gweithio gydag eraill i gefnogi projectau tîm. Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol.

### Ein buddion:

Yn CBAC, rydym yn falch o fod yn lle cynhwysol a chefnogol i weithio. Rydym hefyd yn cynnig amrywiaeth o fuddion ardderchog, gan gynnwys: 25 diwrnod o wyliau blynyddol y flwyddyn (yn ogystal ag 16 o wyliau statudol / ychwanegol), gwersi Cymraeg am ddim, cynllun pensiwn cystadleuol a nifer o bolisiâu sy'n ystyriol o deuluoedd.

Mae'r rôl hon yn swydd hybrid, sy'n galluogi'r ymgeisydd llwyddiannus i rannu ei amser rhwng swyddfeydd CBAC a gweithio gartref, yn amodol ar ddewis personol ac angen busnes.

Os hoffech wybod mwy am y swydd neu am weithio i CBAC, cysylltwch ag [AD@cbac.co.uk](mailto:AD@cbac.co.uk). Bydd y tîm yn fwy na pharod i gael sgwrs.

Ewch i'n [gwefan](#) i lwytho copi o'r disgrifiad swydd a ffurflen gais i lawr.

**Dyddiad cau: 23:59, dydd Sul 18 Awst 2024**

**Disgwylir cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 02 Medi 2024.**

## SWYDD-DDISGRIFIAD

<b>Teitl y Swydd:</b>	<b>Swyddog Sicrhau Ansawdd (dwyieithog)</b>
<b>Adran:</b>	TG
<b>Is-Adran:</b>	Adnoddau Addysgol
<b>Yn atebol i:</b>	Uwch Swyddog Sicrhau Ansawdd
<b>Graddfa:</b>	4
<b>Lleoliad:</b>	Swyddfeydd CBAC, Rhodfa'r Gorllewin
<b>Prif ddiben y Swydd:</b>	

Bydd gofyn i ddeiliad y swydd hon sicrhau ansawdd cynnwys digidol rhyngweithiol a gynhyrchwyd o ran ffurf, swyddogaeth ac iaith drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau bod holl adnoddau o ansawdd uchel ac yn gywir cyn eu cyhoeddi.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Dan gyfarwyddyd swyddog uwch:

1. I fod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd pob cynnwys digidol rhyngweithiol a gynhyrchir gan y Gyfarwyddiaeth er mwyn sicrhau bod y cynnyrch terfynol sy'n cael eu darparu yn bodloni gofynion y pwnc fel y cyflëwyd gan y Bwrdd stori.
2. Gwirio ymarferoldeb yr adnodd a sicrhau ei fod yn gweithio yn ôl y disgwyl yn y ddwy iaith, ac os oes angen rhwng ieithoedd.
3. Sicrhau bod yr adnodd yn cydymffurfio gyda holl ofynion technegol ac anghenion dylunio a'i fod yn gweithredu ar yr holl borwyr a llwyfannau y bwriadwyd iddo.
4. Sicrhau nad yw'r adnodd yn cynnwys unrhyw gamgymeriadau sillafu, gwallau teipograffyddol, gwallau yn yr atalnodi, gwallau gramadegol ac ati yn y ddwy iaith, a bod cyfieithiadau yn adlewyrchiad cywir o iaith wreiddiol yr adnodd.
5. Yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Sicrwydd Ansawdd er mwyn sicrhau cysondeb dros holl brosiectau, a helpu i ddatblygu canllawiau safonau sy'n ymwneud â dyluniad a fformatio.
6. Hysbysu'r rheolwr sicrwydd ansawdd o faterion posibl gyda'r gwaith.
7. Gweithio'n agos gyda datblygwyr digidol i sicrhau y rhoddir adborth mewn modd amserol.

## Manyleb Person

Teitl y Swydd:	Rheolwr Sicrhau Ansawdd (dwyieithog)
Adran:	TG

Meini prawf hynod ddymunol yw'r sgiliau a'r profiad gorau posibl a fydd gan yr ymgeisydd yn ddelfrydol. Meini prawf dymunol yw'r rhai a fyddai'n ychwanegu gwerth at y swydd os ydynt ar gael, gan gynnwys hefyd potensial am dwf a datblygiad i'r rôl.

## Sgiliau a Gallu

### Hynod Ddymunol

- Y gallu i wirio cywirdeb ac ymarferoldeb cynnwys digidol
- Y gallu i brawf ddarllen testun yn y Gymraeg a'r Saesneg ar sgrîn yn gyflym ac yn gywir
- Y gallu i anodi deunyddiau a bwydo sylwadau priodol yn ôl
- Y gallu i weithio gyda chywirdeb a rhoi sylw i fanylion
- Y gallu i gyfathrebu yn hyderus ar bob lefel
- Y gallu i weithio dan bwysau ac i gwrdd â dyddiad cau
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm
- Sgiliau trefnu

### Dymunol

- Profiad o brawf ddarllen testun Cymraeg a Saesneg

## Gwybodaeth

### Hynod Ddymunol

- Gwybodaeth dda o TGCh
- Gwybodaeth am dechnegau prawfesur

## Profiad

### Hynod Ddymunol

- Profiad o sicrhau ansawdd, gwirio a phrawf ddarllen

## Hyfforddiant / Cymwysterau

### Hynod Ddymunol

- Gradd dda yn y Gymraeg a gwybodaeth drylwyr o Saesneg

## Gofynion eraill

### Hynod Ddymunol

- Parodrwyd i fod yn hyblyg wrth weithio

## Telerau ac Amodau Gwasanaeth

## Terms and Conditions of Service

**Teitl y Swydd /  
Job Title:**Swyddog Sicrhau Ansawdd (dwyieithog) /  
Quality Assurance Officer (bilingual)**Cyflog /  
Salary:**£24,510 - £27,147 y  
flwyddyn / per annum**Gradd /  
Grade:**

4

**Gwyliau Blynyddol /  
Annual Leave:**25 Diwrnod y flwyddyn. Mae CBAC yn caniatáu 16 o ddyddiau statudol/ychwanegol o  
wyliau yn ogystal ar hyn o bryd.25 Days per annum. In addition, the WJEC currently allows 16 statutory / additional  
holidays**Pensiwn /  
Pension:**

Gweithredir darpariaeth y Ddeddf Bensiwn Llywodraeth Leol.

The provision of the Local Government Superannuation Act apply.

**Math o Gytundeb:****Contract Type:** Llawn-amser / Full Time Rhan-amser / Part Time Llawn-amser Tymor Cyfyngedig / Full Time  
Limited Term Rhan-amser Tymor Cyfyngedig / Part Time  
Limited Term**Nifer yr oriau yr wythnos  
No of hrs per week****Diwedd y Tymor  
End of Term****Diwedd y Tymor  
End of Term**

31/07/2025

**Nifer yr oriau yr wythnos  
No of hrs per week**

36.5

**Dull Ymgeisio:****Method of Application:**

Dylid anfon ffurflenni wedi'u llenwi ar e-bost at [ad@cbac.co.uk](mailto:ad@cbac.co.uk) erbyn **23:59, dydd Sul 18 Awst 2024**.  
Disgwylir cynnal cyfweiliadau yn ystod yr wythnos yn dechrau 02 Medi 2024.

Completed forms should be sent by email to [hr@wjec.co.uk](mailto:hr@wjec.co.uk) by **23:59, Sunday 18 August 2024**.  
Interviews are expected to take place in the week commencing 02 September 2024.